

## ❖ UN BYCHAN YDOEDD

*Mair***Darllen: Luc 2:1–7****Myfyrdod**

Un bychan ydoedd yn gorwedd yno,  
 mor fregus,  
 mor ddiniwed –  
 a'm hunig ddymuniad oedd ei gofleidio  
 a'i amddiffyn rhag y byd mawr.  
 Ai hwn oedd Mab Duw,  
 yr un oedd i fod yn fawr,  
 Tywysog Tangnefedd?  
 Does bosib!  
 Bu'n anodd credu ar y cychwyn,  
 pan dorrodd yr angel y newydd –  
 meddwl y byddwn i, Mair, wedi fy newis o flaen neb arall  
 i esgor ar y Meseia –  
 ond nawr, wrth syllu i'r preseb  
 a gweld y breichiau bach yn chwifio  
 a'r wyneb diniwed yn crychu mewn cwsg,  
 y mae'n anos credu,  
 amhosibl,  
 dychymyg os bu dychymyg erioed.  
 Bydd yn synhwyrol, dywedais wrthyf fy hun,  
 fyddai Duw byth yn mentro gwneud y fath beth,  
 byth yn mentro'r cyfan ar blentyn diymadferth,  
 a hwnnw wedi ei eni mewn stabl o bob man!  
 Ac ar y gair dihunodd Iesu,  
 dagrau'n llenwi ei lygaid,  
 gwaedd o brotest ar ei wefusau,  
 a sylweddolais ei fod eisiau ei fwydo.  
 Gwawriodd arnaf y pryd hwnnw oblygiadau dychrynlllyd y cyfan –  
 roedd ar y plentyn hwn fy angen,  
 nid yn unig am fwyd, gwres ac amddiffyn,  
 ond am bopeth;  
 yr oedd ei ddyfodol yn fy nwylo.  
 A fyddai Duw yn caniatáu hynny?  
 A fyddai ef ein hangen ni  
 cymaint ag y byddem ni ei angen ef?  
 Na, mae'n rhaid bod rhywun wedi gwneud camgymeriad –  
 ni allai hyn fod yn bosibl.  
 Neu a allai hyn fod yn bosibl?

**Gweddi**

O! Dduw,  
 daethost i'n byd yng nghyflawnder yr amser,  
 ymgawdolodd dy air mewn plentyn yn gorwedd mewn preseb.  
 Cymaint oedd dy gariad tuag atom,  
 mentraist y cyfan  
 i chwalu'r gwahanfuriau rhyngom.  
 Rhennaist ein dynoliaeth o'r crud i'r groes,

fel y gallem brofi bywyd yn ei holl gyflawnder.  
Daethost yn Dduw gyda ni,  
fel y gallwn ni fod yn un â thi.  
Dysg i ni sylweddoli  
fod yn rhaid i ninnau fel Mair  
dderbyn dy drugaredd  
a phrofi'r bendithion yr wyt am eu cyfrannu i ni.  
Tyrd eto i'n calonnau,  
fel y gallwn dy garu'n well  
a'th wasanaethu'n deilwng,  
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies**